



Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant Dinas a Sir Abertawe

Crynodeb
2017 - 2022



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Abertawe
Swansea Family Information Service

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tud. 3
Yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant	Tud. 3
Methodoleg	Tud. 5
2. A oes digon o ofal plant ar draws Abertawe yn 2017?	Tud. 6
3. Canfyddiadau Allweddol	Tud. 9
Y galw am ofal plant	Tud. 9
Y cyflenwad o ofal plant	Tud. 16
4. Dadansoddiad o'r Bylchau	Tud. 27
Bylchau Daearyddiaeth a Math	Tud. 27
Bylchau incwm	Tud. 29
Bylchau anghenion penodol	Tud. 29
Bylchau amser	Tud. 30
Bylchau oedran	Tud. 30

Crynodeb o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017

1. Cyflwyniad

Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

- 1.1 Ym mis Ebrill 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ffurfiol i Awdurdodau Lleol, yn nodi'r gofynion deddfwriaethol roedd yn rhaid iddynt eu cyflawni o dan y Ddeddf Gofal Plant.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn dal i ofyn bod holl Awdurdodau Lleol Cymru:

- Yn cynnal ac yn diweddarau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant
- Yn sicrhau bod gofal plant digonol yn hygyrch yn eu hardal; ac
- Yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am blentyn, yng nghyswllt gofal plant...

...Yn y bôn, mae Adran 22 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol Cymru i sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n *resymol ymarferol*, argaeledd gofal plant digonol i ddiwallu gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant er mwyn medru dechrau gweithio, aros mewn gwaith, neu ddilyn addysg neu hyfforddiant.

Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu hasesiadau digonolrwydd gofal plant lleol eu hunain, sef un o ofynion y Ddeddf honno.

- 1.2 Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet Cymunedau a Phlant Ganllawiau Statudol wedi'u diweddarau ar Ddigonolrwydd Gofal Plant, oedd yn nodi sut roedd barn ei weithgor gofal plant anffurfiol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth, wrth fireinio proses yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – yng nghyswllt dyletswydd awdurdod lleol i asesu a sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol.

Nodwyd y byddai hyn yn arwain at:

- ddull gweithredu mwy cyson a safonol o gasglu data ac adrodd amdano, i lywio datblygiad polisiau a rhaglenni cenedlaethol a darparu darlun Cymru gyfan o'r ddarpariaeth
- ffynhonnell fwy defnyddiol o wybodaeth, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i reoli ac asesu'n effeithlon ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant
- mwy o eglurder i awdurdodau lleol ynghylch yr wybodaeth sydd i'w chasglu a sicrwydd bod gofynion statudol y ddyletswydd yn cael eu cyflawni
- dull gweithredu llai beichus a mwy cymesur
- gwell alinio ac integreiddio ar draws prosesau cynllunio ac asesu allweddol ar lefel leol a chenedlaethol

- 1.3 Roedd y Canllaw Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diwygiedig – sydd i'w weld yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160714-childcare-statutory-guidance-en-v2.pdf> – hefyd yn amlinellu sut mae rhaid i bob awdurdod lleol yn ogystal gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant sy'n "*dileu diffygion ac yn cynnal y cryfderau a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant*". Roedd y canllaw hwn hefyd yn nodi "*Dylid adolygu Cynlluniau Gweithredu'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn barhaus a'u diweddarau ac adrodd arnynt yn flynyddol trwy adroddiadau cynnydd. Bob blwyddyn dylai awdurdodau lleol anelu am welliant parhaus wrth sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol*".
- 1.4 Un o nodweddion allweddol **prif** adroddiad yr asesiad digonolrwydd gofal plant – a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mawrth 2017 – yw bod y broses yn rhoi adborth ar y galw (lleol) yn hytrach na'r cyflenwad (lleol) – h.y.: asesu'r galw am ofal plant yn achos pob math o ddarpariaeth gofal plant; ac asesu'r cyflenwad o ofal plant yn achos pob math o ddarpariaeth gofal plant.
- 1.5 Cyflwynwyd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Dinas a Sir Abertawe 2017 – a'r Cynllun Gweithredu i gyd-fynd ag ef, i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2017 – yn unol â'r amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Dinas a Sir Abertawe 2017 yn cwmpasu'r cyfnod o 2017-2022, gyda'r gofynion canlynol o ran diweddarau:

31 Mawrth 2018	Adroddiad Cynnydd
31 Mawrth 2019	Adroddiad Cynnydd
31 Mawrth 2020	Adroddiad Cynnydd
31 Mawrth 2021	Adroddiad Cynnydd

- 1.6 Yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 mae pwnc ychwanegol wedi galw am ddadansoddi ategol, penodol: y bwriad i estyn yr hawl am ddim i blant 3 a 4 oed, hyd at uchafswm o 30 awr yr wythnos – 10 awr yn y cyfnod sylfaen a 20 awr o ofal plant.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gynnig gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed, a hynny ar ben Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, 48 wythnos y flwyddyn.

Ym mis Tachwedd 2016, dewiswyd chwe Awdurdod Lleol i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar beilot y cynnig gofal plant newydd hwn – un o'r rhain oedd Dinas a Sir Abertawe. Bydd y peilot mewn rhai manau yn Abertawe yn cychwyn ym mis Medi 2017.

Yn ei hanfod, felly, nod Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 oedd penderfynu ar ddau ffactor perthnasol, i baratoi ar gyfer hydref 2017:

1. I ba raddau roedd darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant cofrestredig yn Abertawe yn credu y byddent
 - (a) yn barod a
 - (b) yn alluog i helpu i ddarparu'r oriau estynedig y gellir eu hawlio?

2. I ba raddau roedd rhieni lleol (perthnasol) yn credu y byddai ganddynt, yn ddamcaniaethol, ddi-ddordeb mewn cyrchu'r cynnydd yn yr hawl – ac i ba raddau y byddent yn ceisio cyrchu'r uchafswm o ran yr oriau a gynigir.
3. Pa mor aml, yn gymharol, y byddai rhieni o bosibl yn dewis cyrchu mathau penodol o ddarpariaeth gofal plant ar gyfer yr oriau ychwanegol.

Methodoleg

- 1.7 Mae'r adroddiad crynodeb interim hwn yn ymgorffori gwybodaeth gryno (i ddilyn) ar y methodolegau ymgynghori a'r dulliau coladu data a ddefnyddiwyd i lywio a chynhyrchu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017. Mae'r adroddiad crynodeb ei hun yn (a) Adran 3 (tudalennau 9-25) yn amlinellu'r canfyddiadau cychwynol a'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg ac yn (b) Adran 4 yn crynhoi'r bylchau sydd i'w gweld/sy'n dod i'r amlwg ym 'marchnad gofal plant' ardal Abertawe (tud. 26-29).
- 1.8 Bu Dinas a Sir Abertawe yn ymgynghori'n helaeth ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017. Fel yn achos Asesiad 2014 lluniwyd protocol ymchwil dull cymysg, ansoddol a meintiol. Elfennau allweddol o Asesiad 2017 oedd y canlynol:
 - Cyfweiliadau ffôn ac wyneb yn wyneb (ategol) gyda rhieni a gofalwyr sy'n byw ar draws ardal awdurdod lleol Abertawe. Roedd hyn yn ymgorffori uchelgais o sicrhau bod sampl yn cynrychioli teuluoedd lle roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad
 - Arolwg Rhieni ategol ar-lein, a bostiwyd ar wefan yr awdurdod lleol o ddiwedd Hydref 2016 tan ddiwedd Rhagfyr 2016
 - Cyfweiliadau strwythuredig dros y ffôn gyda darparwyr gofal plant ffurfiol yr ardal leol a'r darparwyr gofal plant anffurfiol (hysbys) – gan gynnwys y rhai a ddynodwyd fel rhan o'r Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant
 - Arolwg ar-lein a thros y ffôn gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal, gan gynnwys er mwyn pennu i ba raddau roeddent yn cynnig gofal plant y tu allan i oriau ysgol ar ffurf darpariaeth cyn oriau ysgol – hynny yw, clybiau brechwast
 - Arolwg ar-lein a chopi papur gyda chyflogwyr amlwg Abertawe
 - Sesiynau ymgynghori strwythuredig gyda phlant a phobl ifanc oedd yn cynrychioli tri grŵp oedran: plant 2-4 oed; plant 5-7 oed; plant 8-11 oed
 - Dadansoddiad o'r prif ffactorau demograffig sy'n gallu effeithio'n rhesymol ar farchnad gofal plant leol Abertawe – gan gynnwys lefelau poblogaeth cyfredol plant a phobl ifanc, a'r rhai a ragwelir, a datblygiadau tai newydd arfaethedig/cynnyrch anheddau
 - (Yn hanfodol) dadansoddiad o'r cyflenwad o ofal plant, ar un adeg benodol – sef Tachwedd 2016 – gan gynnwys pennu'r lleoedd oedd yn hygyrch trwy'r oriau di-dâl y gellid eu hawlio i blant 3 a 4 oed a rhaglen Dechrau'n Deg

Gwahoddwyd y sefydliadau a'r grwpiau canlynol hefyd i gyflwyno sylwadau ynghylch digonolrwydd gofal plant yn lleol:

- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin
- Fforwm Addysg Gymraeg Abertawe
- Rhwydwaith Chwarae Abertawe
- Canolfan Byd Gwaith Abertawe
- Partneriaid Cwlwm, gan gynnwys: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru), PACEY Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru (Wales PPA).

1.10 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddarparwyr data allanol – er enghraifft, StatsWales, Uned Ddata Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 hefyd wedi cael ei lywio gan (a) adroddiad y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), y cyflwynodd mwyafrif darparwyr gofal plant Cymru ran un ohono yn haf 2016 – un o ofynion AGGCC; a (b) arolwg gweithlu gofal plant (hydref 2016) Cymru gyfan Cwlwm – oedd â'r prif nodau canlynol: (i) darparu gwybodaeth ynghylch lefelau'r cymwysterau sydd gan weithwyr y sector gofal plant ar hyn o bryd a (ii) nodi anghenion hyfforddi ac archwilio materion yn ymwneud â mynediad i hyfforddiant ar thema gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

2. A oes digon o ofal plant ar draws Abertawe yn 2017?

2.1 Mae'n amlwg bod gan Ddinas a Sir Abertawe ystod eang a helaeth o ddarpariaeth gofal plant sy'n cyfateb i anghenion daearyddol, economaidd a chyflogaeth yr Awdurdod Lleol.

Bydd dyfodiad y cynnydd yn yr hyn y bydd gan blant 3 a 4 hawl i'w dderbyn yn ddi-dâl – gan gynnwys trwy'r rhaglen beilot – yn ychwanegu ymhellach at y portffolio hwn o ddarpariaeth.

2.2 Ar adeg cynhyrchu'r Asesiad hwn, mae gan Ddinas a Sir Abertawe 225 o ddarparwyr gofal plant ffurfiol sydd wedi cofrestru gydag AGGCC, yn cynnig amrywiaeth o (fathau o) leoedd gofal plant. Mae'r darparwyr gofal plant hyn yn cynnwys:

- Lleoliadau gofal dydd llawn
- Lleoliadau gofal dydd sesiynol
- Gwarchodwyr plant cofrestredig
- Darparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol – gan gynnwys nifer o glybiau ar ôl ysgol, clybiau brechwast a chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau

Mae'r ardal leol, o fewn y sector sesiynol, hefyd yn cynnal tair darpariaeth gofal plant cyn-ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg, a gefnogir trwy grwpiau cysylltiedig â'r Mudiad Meithrin (MM) ac addysg feithrin gyfrwng Gymraeg, ar gyfer rhieni sydd

angen Gwasanaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae sector gofal plant anffurfiol hefyd yn bodoli ac yn ffynnu, ar ffurf (yn hydref 2016):

1. Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy, h.y. rhai sy'n gofalu am blant yn y cartref a nanis
2. Cynlluniau chwarae sy'n cwrdd mewn Canolfannau Hamdden yn ardal Abertawe

Dylid nodi hefyd bod 31 o ddarparwyr gofal plant wedi dewis atal eu gwasanaeth ar hyn o bryd, gan y gallent benderfynu dechrau masnachu eto ar unrhyw adeg¹.

Yn olaf, mae'r cyrff statudol a gwirfoddol sy'n gweithredu ar draws yr ardal yn parhau i gynnig dull gweithredu integredig, gyda gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau/anghenion ychwanegol. Lluniwyd y gwasanaethau hyn i sicrhau bod plant sydd â diagnosis o anabledd, neu sydd ag anabledd yn dod i'r amlwg, yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol, a bod y darparwyr gofal plant a ddewiswyd yn gallu darparu ar gyfer plentyn/person ifanc anabl heb gost ychwanegol iddynt eu hunain na'r rhiant.

2.3 O ran Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2014, mater allweddol sy'n dal yn destun pryder i rieni a gofaluwr (ac yn dylanwadu arnynt) yw fforddiadwyedd. Mae ansawdd hefyd wedi derbyn sylw droeon yn ystod ymchwil 2017. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod mwyafrif y rhieni a'r gofaluwr yn fodlon ar eu trefniadau gofal plant presennol, boed hynny trwy gyrchu darpariaeth gofal plant ffurfiol, neu beidio â *dibynnu* ar ddarpariaeth o'r fath – neu ddewis peidio â defnyddio gofal plant mor ffurfiol, gan gynnwys oherwydd ei bod yn well ganddynt ddefnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau.

2.4 Fodd bynnag, amlygodd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe y gallai fod pwysau ar y gorwel i deuluoedd sy'n dibynnu ar ofal plant ffurfiol – yn aml er mwyn i riant/rieni fedru mynd i'r gwaith – gael hyd i le gofal plant ffurfiol addas oherwydd y canlynol:

1. Datblygiadau tai newydd sydd ar waith ar draws ardal Abertawe, y mae'r Asesiad hwn yn rhagweld allai arwain at angen am ryw 684 o leoedd newydd addysg/gofal plant blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed yn ystod y cyfnod hyd at 2020
2. Rhagfynegiad Llywodraeth Cymru y bydd nifer y plant 8-15 oed sy'n byw yn Abertawe yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod

2.5 Yn ogystal – ochr yn ochr â 2.3 uchod – mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 hefyd yn amlygu rhaniad posibl rhwng y Gogledd a'r De o ran pa mor fforddiadwy i rieni yw talu am ofal plant ffurfiol – yn y bôn, mae rhieni sy'n byw yng Ngogledd yr ardal leol yn cael mwy o drafferth i fforddio darpariaeth.

¹ 27 Gwarchodwr Plant Cofrestredig; 1 Darparwr Gofal Dydd Sesiynol, 1 Cynllun Chwarae yn ystod y Gwyliau; 2 Glwb ar ôl Ysgol.

- 2.6 Yn olaf, mater a amlygwyd gan nifer o rieni yn ystod Arolwg Rhieni Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 oedd y dylai darpariaeth gofal plant ffurfiol, yn ddelfrydol, fod yn gymharol agos at ble maen nhw'n byw, os ydynt i ystyried gwneud defnydd ohono. Mae ein dadansoddiad ninnau'n rhoi sicrwydd na fyddai rhaid i rieni a gofalwyr sy'n byw ym mhob lleoliad ar draws ardal Abertawe deithio'n rhy bell i gael mynediad i le mewn darpariaeth gofal plant o ryw fath.

3. Canfyddiadau Allweddol

Y Galw am Ofal Plant – yn ôl y dystiolaeth yn Arolwg Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 gyda Rhieni a Gofalwyr

3.1 O ran y galw amlwg am ofal plant heb ei gofrestru a'r defnydd ohono ar ddiwedd 2016/dechrau 2017, dangosodd Arolwg Rhieni Asesiad 2017 – fel Asesiad blaenorol 2014, fod neiniau a theidiau, aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau *yn dal* i chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi rhieni sy'n byw yn Abertawe. Yn y bôn, cadarnhaodd 40% o gyfweleion Arolwg Rhieni'r Asesiad yn 2017 eu bod – i ryw raddau – yn defnyddio gofal plant anffurfiol o'r fath.

3.2 O ran y galw amlwg *sy'n ymddangos* am ofal plant ffurfiol, cofrestredig a'r defnydd ohono ar ddiwedd 2016:

dywedodd 28% o'r ymatebwyr – Ydw, rwy'n defnyddio gofal plant ar gyfer pob un o'm plant

dywedodd 16% o'r ymatebwyr – Ydw, rwy'n defnyddio gofal plant ar gyfer rhai o'm plant

a...

dywedodd 56% o'r ymatebwyr – Na, dwy ddim yn defnyddio gofal plant ffurfiol ar hyn o bryd

3.3 Dywedodd tua 45% o'r ymatebwyr eu bod yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol. Roedd yn amlwg bod y rhieni a'r gofalwyr hyn a ymatebodd yn cyrchu'r tri math canlynol o ddarpariaeth gofal plant amlaf – yn y drefn ganlynol:

1. Gofal plant y tu allan i oriau ysgol – 45% o'r rhieni/gofalwyr perthnasol

2. Gofal dydd llawn – 25%

3. Gofal dydd sesiynol, gan gynnwys Cylch Meithrin – 10%

...a'r rheswm a roddwyd amlaf dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol ar hyn o bryd oedd: i'm galluogi i fynd i'r gwaith (69% o'r rhieni/gofalwyr perthnasol), a'r ail o ran amlder oedd: er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol neu ddysgu i'm plentyn/plant – 17%.

3.4 Gosodiad yr oedd defnyddwyr gofal plant ffurfiol o blith yr ymatebwyr yn cytuno gan mwyaf ag ef oedd: Rwy'n fodlon ar ansawdd fy ngofal plant yn ystod y tymor a/neu yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, roedd 69% o ddefnyddwyr gofal plant ffurfiol yn cytuno bod gofal plant o'r fath (yn eu barn nhw) yn rhy ddrud.

O ran y gosodiad: Byddwn i'n hoffi i'm plentyn/plant fynychu *mwy* o ofal plant cofrestredig – h.y. cynyddu eu horiau, roedd 29% o'r ymatebwyr perthnasol yn cytuno â'r gosodiad. O ran y gosodiad: Byddai'n well gen i ddefnyddio teulu/frindiau ar gyfer gofal plant, roedd 41% o'r ymatebwyr perthnasol yn cytuno â'r gosodiad, a 33% yn anghytuno.

3.5 Tri gwelliant posibl a nodwyd amlaf i brofiad beunyddiol rhiant/gofalwr o ofal plant ffurfiol, yn ystod y tymor oedd – yn nhrefn amllder:

1. Gallai gofal plant fod yn fwy fforddiadwy
2. Gallai gofal plant fod ar gael (yn fwy) ar ôl ysgol, 3.30pm – 6.00pm
3. Gallai gofal plant fod ar gael (yn fwy) cyn yr ysgol, 7:30am – 9.00am

Tri gwelliant posibl a nodwyd amlaf i brofiad beunyddiol rhiant/gofalwr o ofal plant ffurfiol, yn ystod y gwyliau oedd – yn nhrefn amllder:

1. Gallai gofal plant fod yn fwy fforddiadwy
2. Gallai gofal plant fod ar gael (yn fwy) ar ôl 6.00pm
3. Gallai gofal plant fod ar gael (yn fwy) ar y penwythnosau

3.6 Roedd yn amlwg bod mwyafrif y rhieni oedd â phlentyn 3 a/neu 4 oed yn cyrchu lle y gellid ei hawlio am ddim mewn ysgol gynradd leol (rhywbeth yr oeddent yn cyfeirio'n gyson ato fel "*lle yn yr ysgol*"). O'r rhieni hynny oedd â phlentyn 3 a/neu 4 oed oedd ddim yn cyrchu lle perthnasol y gellid ei hawlio am ddim, y rheswm a nodwyd amlaf dros beidio â gwneud hynny oedd: doeddwn i ddim yn gwybod am yr "*hawl i gael lle am ddim*" (dywedodd 10% o'r rhieni perthnasol hyn).

Holwyd pob rhiant a gofalwr oedd â phlentyn 1, 2 a/neu 3 oed:

Yn ddamcaniaethol ydych chi'n meddwl y gallai fod gennyh chi ddiddordeb mewn cael lle am ddim mewn Addysg Blynnyddoedd Cynnar am fwy na 10 awr yr wythnos – o bosib hyd at uchafswm o 30 awr, gan gynnwys uchafswm o 20 awr o ofal plant?

Dywedodd 82% o'r rhieni: ydw – a dywedodd 9% o'r rhieni: nac ydw. Dywedodd 9% o'r rhieni perthnasol: ddim yn gwybod.

Nifer yr oriau damcaniaethol a nodwyd amlaf oedd 30 – gan 80% o'r rhieni perthnasol. Nifer *cyfartalog* yr oriau damcaniaethol a nodwyd oedd 27 awr – a 35 munud. Y math o ddarparwr gofal plant y cyfeiriwyd ato amlaf lle byddai'r cyfryw rieni (eto'n ddamcaniaethol) yn rhagweld cyrchu (cyfran o) hawl estynedig o'r fath oedd lleoliad gofal dydd llawn (73% o'r rhieni perthnasol), gyda lleoliad gofal dydd sesiynol yn dilyn (23% o'r rhieni).

3.7 O ran y rhieni hynny oedd â phlentyn 2 oed, oedd yn byw mewn ardal ddynodedig Dechrau'n Deg, ond *nad oeddent* yn cyrchu lle Dechrau'n Deg – y rheswm mwyaf cyson dros beidio â gwneud hynny oedd: dwy ddim yn meddwl byddai fy mhientyn yn cael budd.

3.8 Yn ôl pob golwg, (dim ond) 10% o'r rhieni oedd yn cyrchu gofal plant ffurfiol oedd yn hawlio elfen gofal plant credyd treth gwaith/credyd cynhwysol.

Ar ben hynny, dywedodd tua 15% o'r holl rieni eu bod yn bwriadu hawlio'r gofal plant di-dreth neu gymorth trwy gynllun â chymorth Cyflogwr yn y dyfodol. Gan amlaf, pan fyddai rhieni'n dweud nad oeddent yn bwriadu hawlio trwy'r cynllun, y rheswm a nodwyd oedd: rwy'n gwybod mod i ddim (yn mynd i fod) yn gymwys.

- 3.9 Yn Abertawe, cododd cyfran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 10.5% yn 2001 i 14.6% yn 2011, gyda chynnydd bychan hefyd yn y grŵp 5-15 oed, o 25.2% yn 2001 i 26.0% yn 2011.

Un o ganlyniadau Arolwg Rhieni Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 oedd bod 15% o ddefnyddwyr gofal plant yn dweud bod eu plentyn/plant yn cyrchu lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Dywedodd 14% o'r holl rieni eu bod yn awr, neu yn y gorffennol, wedi profi rhwystr i gyrchu darpariaeth Gymraeg – yn fwyaf aml: does dim darpariaeth o'r fath ar gael yn fy ardal leol. Nodwyd hefyd, o'r *holl* rieni yr ymgynghorwyd â hwy, fod 48% yn dweud y byddent yn ddelfrydol yn dymuno i'w plentyn/plant fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- 3.10 Adroddodd rhyw 55% o'r ymatebwyr i Arolwg Rhieni Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol ar hyn o bryd. O'r rhieni a'r gofalwyr hyn, y rheswm a nodwyd amlaf am hyn oedd: bod fy rheulu/ffrindiau'n gofalu am fy mhentyn/ mhlant, a'r ail amlaf oedd: rwyf fi/mae fy mhartner yn aros gartre gyda'r plant a does dim angen gofal plant arna i. Dywedodd 16% o'r rhai nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol mai'r rheswm dros beidio â defnyddio darpariaeth o'r fath oedd: y gost.

Fodd bynnag – yn hanfodol – dim ond 15% o'r cyfryw rieni ddywedodd *nad oedd* gofal plant wedi bod ar gael ar ryw adeg yn y gorffennol pan oedd ei angen arnynt. Yn amlwg petai'r ymatebwyr hyn yn ystyried defnyddio gofal plant yn y dyfodol – y mater y cyfeiriwyd ato amlaf fel un o bwysigrwydd cymharol oedd y byddai angen i ofal plant fod yn fforddiadwy (51% o'r rhieni perthnasol) a'r ail amlaf oedd: byddai angen i'r gofal plant fod o ansawdd da (50%) ac yna byddai'r gofal plant yn ddelfrydol wedi'i leoli'n agos at ble rwy'n byw (30%).

- 3.11 Roedd rhieni a nododd fwriad i gyrchu math o ofal plant ffurfiol yn y dyfodol yn cyfeirio amlaf at y ddau fath cyffredinol canlynol o ddarpariaeth:

1. Lle mewn gofal dydd llawn
2. Lle mewn gofal plant y tu allan i oriau ysgol

...a'r rheswm a nodwyd amlaf dros fwriadu defnyddio gofal plant ffurfiol yn y dyfodol oedd: (parhau i) fy ngalluogi i fynd i'r gwaith.

Y Galw am Ofal Plant – yn ôl y dystiolaeth yn Arolwg Cyflogwyr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017

- 3.12 Datgelodd yr ymarferiad ymgynghori â chyflogwyr yr adborth canlynol i'r cwestiwn: *Yn eich barn chi ydy'r ddarpariaeth gofal plant gyfredol yn Abertawe yn briodol i ddiwallu anghenion eich cyflogeion?*:

Ydy = 25%

Nac ydy = 8 %

Ddim yn gwybod = 67%

Ymhlith y Canfyddiadau Allweddol eraill mae'r canlynol:

- Dywedodd 1:3 o'r cyflogwyr a ymatebodd eu bod *nhw*, yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, wedi profi anawsterau recriwtio a/neu gadw staff oedd yn gysylltiedig â sefyllfa(oedd) gofal plant gweithwyr penodol
- Gosodiad roedd cyflogeion yn dweud amlaf eu bod naill ai'n (a) cytuno ag ef neu'n (b) cytuno'n *bendant* ag ef oedd "y dylai'r ddarpariaeth gofal plant fod yn fwy fforddiadwy"
- Y math o fudd(iannau) cysylltiedig â gofal plant neu gefnogaeth ariannol tuag at ofal plant yr oedd cyflogwr yn ei gynnig neu'n ei drefnu amlaf oedd talebau gofal plant

Y Galw am Ofal Plant – yn ôl y dystiolaeth yn Arolwg Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 gyda Phlant a Phobl Ifanc

- 3.13 Datgelodd ein hymgyngghoriad â phlant 2-4 oed, 5-7 oed ac 8-11 oed fod ¶ digonolrwydd gofal plant yn tueddu i fod yn fater unigol i deuluoedd sy'n byw yn Abertawe. Hefyd, yn ddelfrydol, os yw gofal plant i fod yn ddigonol, mae angen bod amrywiaeth o gyfleoedd i deuluoedd a phlant fod ar gael.

Ymhlith y Canfyddiadau Allweddol Eraill mae'r canlynol:

- Dywedodd plant 2-4 oed wrthym ni fod chwarae (rhydd) yn rhan bwysig iawn o'u profiad gofal plant
- Mae plant 2-4 oed yn teithio i'w gofal dydd ac oddi yno drwy gerdded gan amlaf, gyda theithio mewn car yn ail amlaf
- Mae neiniau a theidiau'n chwarae rôl anffurfiol hanfodol wrth helpu i ddarparu gofal plant ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed
- Roedd plant 5 oed a throsodd yn aml yn mwynhau mathau mwy corfforol o chwarae (rhydd), gan gynnwys bod yn yr awyr agored – mewn lleoliad gofal plant
- Roedd plant 5 oed a throsodd yn amlwg yn sylwi ar y math(au) o fwyd roedden *nhw*'n eu derbyn mewn gofal plant, ac roedd ganddyn *nhw* feddyliau clir ynghylch hynny
- Roedd nifer uwch o'r plant 5 oed a throsodd yn cyrraedd gofal plant (y tu allan i'r ysgol) yn y car, felly roedd y plant hynny – gellir rhagdybio – yn teithio pellter cymharol hwy i gyrraedd eu gofal plant na phlant ifanc (2-4 oed)

Y Galw am Ofal Plant – yn ôl y dystiolaeth yn y dadansoddiad Demograffig a Sosio-economaidd

- 3.14 Dangosodd ffigurau poblogaeth canol 2015 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod y nifer uchaf o blant 0-2 oed i bob golwg yn byw (yn nhrefn amllder) yn y tair ward ganlynol:
1. Ward Penderi
 2. Ward Llansamlet ac yn ffinio â hi...
 3. Ward Treforys

Dangosodd ffigurau poblogaeth canol 2015 yr ONS fod y nifer uchaf o blant 3-4 oed i bob golwg yn byw (yn nhrefn amllder) yn y tair ward ganlynol:

1. Ward Penderi
2. Ward Llansamlet ac yn ffinio â hi...
3. Ward Treforys

Dangosodd ffigurau poblogaeth canol 2015 yr ONS fod y nifer uchaf o blant 5-7 oed i bob golwg yn byw, eto (yn nhrefn amllder) yn y tair ward ganlynol:

1. Ward Treforys ac yn ffinio â hi...
2. Ward Llansamlet
3. Ward Penderi

Dangosodd ffigurau poblogaeth canol 2015 yr ONS fod y nifer uchaf o blant 8-11 oed i bob golwg yn byw (yn nhrefn amllder) yn y tair ward ganlynol:

1. Ward Treforys ac yn ffinio â hi...
2. Ward Llansamlet
3. Ward Penderi

Dangosodd ffigurau poblogaeth canol 2015 yr ONS fod y nifer uchaf o blant 12-15 oed i bob golwg yn byw (yn nhrefn amllder) yn y tair ward ganlynol:

1. Ward Treforys ac yn ffinio â hi...
2. Ward Penderi
3. Ward Llansamlet

3.15 Dengys rhagamcanion poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 y *newidiadau* canlynol yng nghanrannau poblogaeth carfannau penodol sy'n byw yn ardal awdurdod lleol Abertawe...

Carfan Oed	Poblogaeth Breswyl 2017	Poblogaeth Breswyl 2020	% y cynnydd 2017– 2020
0 – 2 oed	7,423	7,533	+1.5%
3 – 4 oed	5,134	4,997	-2.6%
5 – 7 oed	8,142	7,953	-2.3%
8 – 11 oed	10,549	10,854	+2.8%
12 – 15 oed	10,103	10,473	+3.5%
Cyfanswm 0-15 oed	41,351	41,810	+1.1%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2015

Yr elfen hollbwysig yw bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y boblogaeth plant hŷn yn cynyddu'n fwy na'r boblogaeth plant ifanc/iau.

- 3.16 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2011: Y Mynegai Plant, yw'r mesur swyddogol ar gyfer amddifadedd cymharol mewn ardaloedd allbwn ehangach yng Nghymru i blant. Fe'i cyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2011. Dengys y tabl isod y wardiau lle roedd y 10 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)² sydd ar y brig yn Abertawe wedi'u lleoli o ran (a) y Mynegai Plant cyffredinol a (b) y dangosydd Amddifadedd Addysg yn 2011.

Safle Abertawe	Mynegai Plant 2011	Amddifadedd Addysg
1	Ardal Gynnyrch Ehangach (SOA) Townhill [Safle] 1 ³	Ardal Gynnyrch Ehangach Penderi [Ward] 1
2	SOA Townhill 3	SOA Townhill 1
3	SOA Penderi 1	SOA Townhill 3
4	SOA Townhill 2	SOA Penderi 7
5	SOA Bonymaen 1	SOA Townhill 6
6	SOA Penderi 3	SOA Townhill 5
7	SOA Mynyddbach 1	SOA Mynyddbach 1
8	SOA Y Castell 8	SOA Penderi 5
9	SOA Penderi 4	SOA Penderi 3
10	SOA Treforys 7	SOA Y Castell 2

² Crewyd SOAs Haen Is gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2001 o grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch (yn nodweddiadol 4-6 ohonynt), ac fe'u diweddarwyd wedi Cyfrifiad 2011. Ar gyfartaledd maent yn cynnwys rhyw 1,500 o breswylwyr a 650 o aelwydydd.

³ h.y. Ardal Gynnyrch Ehangach fwyaf diffreintiedig ward Townhill.

- 3.17 Mae nifer o **ddatblygiadau tai newydd** i ddigwydd yn ystod y cyfnod hyd at 2020 ar draws ardal Abertawe. Dengys y Tabl isod sut gallai'r rhain roi pwysau pellach yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth gofal plant (leol).

Ward	Nifer yr anheddau datblygiadau tai <i>newydd</i> sydd ar waith/i'w cwblhau'n fuan yn y ward – yn ystod y cyfnod 2017 i 2021	Y lleoedd gofal plant newydd posibl fydd yn ofynnol ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed (sy'n breswylwyr newydd) – gan ddefnyddio fformwla cynnyrch o 0.31 lle [cyfatebol mewn ysgol gynradd] fesul uned breswyl berthnasol X3 [grŵp blwyddyn]
Llandeilo Ferwallt	0	0
Bonymaen	1,001	93
Y Castell	498	46
Clydach	53	5
Y Cocyd	398	37
Cwmbwrla	10	1
Dyfnant	39	4
Fairwood	0	0
Gorseinon	275	25
Gŵyr	0	0
Tregŵyr	0	0
Gogledd Cilâ	415	36
De Cilâ	0	0
Pontybrenin	217	20
Glandŵr	215	20
Llangyfelach	146	13
Llansamlet	1,153	108
Llwchwr Isaf	110	10
Mawr	15	1.5
Mayals	0	0
Treforys	119	11
Mynyddbach	49	5
Newton	15	1.5
Ystumllwynarth	100	9
Penclawdd	0	0
Penderi	271	25
Penllergaer	250	23
Pennard	0	0
Penyrheol	377	35
Pontarddulais	371	34
St Thomas	670	62
Sgeti	401	37
Townhill	134	12
Uplands	32	3
Llwchwr Uchaf	45	4
West Cross	35	3
Cyfanswm	7,414	684 o leoedd newydd yn ofynnol o bosibl ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed

Ffynhonnell: [data colofnau 1 a 2] Dinas a Sir Abertawe 2016

Y Cyflenwad o Ofal Plant – Lleoedd a Darpariaeth yn 2016

- 3.18 Mae'r adran sy'n dilyn yn cynnwys yr wybodaeth allweddol ynghylch nifer y lleoedd cofrestredig y gellir cael mynediad iddynt trwy sector gofal plant ffurfiol Abertawe.

Yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant **2014**, nifer y **darparwyr gofal dydd llawn** a nodwyd oedd 35 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd 1,700.

Mewn cymhariaeth...

Nifer y **darparwyr gofal dydd llawn oedd yn gweithredu yn hydref 2016** oedd 36 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd (nifer cynyddol, sef) 1,811.

Yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant **2014**, nifer y **darparwyr gofal dydd sesiynol** a nodwyd oedd 33 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd 773.

Mewn cymhariaeth...

Nifer y **darparwyr gofal dydd sesiynol oedd yn gweithredu yn hydref 2016** oedd 37 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd (nifer cynyddol, sef) 932.

Yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant **2014**, nifer y **darparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol** a nodwyd oedd 28 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd 805.

Mewn cymhariaeth...

Nifer y **darparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol oedd yn gweithredu yn hydref 2016** oedd 27 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd (nifer cynyddol, sef) 899.

Yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant **2014**, nifer y **cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau** a nodwyd oedd 17 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd 537.

Mewn cymhariaeth...

Nifer y **cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau oedd yn gweithredu yn hydref 2016** oedd 14 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r darparwyr hynny oedd 441.

Yn olaf, yn achos Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2014, nifer y **gwarchodwyr plant cofrestredig a nodwyd** oedd 134 ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r unigolion hynny oedd 703.

Mewn cymhariaeth...

Nifer y **gwarchodwyr plant cofrestredig oedd yn gweithredu yn hydref 2016** oedd 111, ac i bob golwg, nifer y lleoedd y gellid cael mynediad iddynt gyda'r unigolion hynny oedd (nifer cynyddol, sef) 771.

3.19 Crynodeb o'r prif fathau o ofal plant ffurfiol cofrestredig⁴ oedd yn hygyrch ledled Abertawe yn hydref 2016, a chymhariaeth rhwng hynny a'r cyflenwad yn 2014

Math o ofal plant ffurfiol	Nifer y darparwyr cofrestredig 2014	Nifer y darparwyr cofrestredig 2016	Nifer y lleoedd cofrestredig 2014	Nifer y lleoedd cofrestredig 2016	Y newid yn nifer y lleoedd
Y sector Gofal Dydd Llawn	35	36	1,700	1,811	+111
Y sector Gofal Dydd Sesiynol	33	37	773	932	+159
Gwarchodwyr Plant Cofrestredig	134	111	703	771	+68
Y sector Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol	28	27	805	899	+94
Cynlluniau Chwarae yn ystod y Gwyliau	17	14	537	441	-96
Cyfanswm	247	225	4,518	4,954	+336

Dengys y tabl, ers gwanwyn 2014, fod cynnydd net o 336 o leoedd gofal plant cofrestredig ar draws yr ardal, yn arbennig yn achos y sector gofal dydd sesiynol, y gellir ei egluro – gan mwyaf – yn sgîl twf parhaus y rhaglen Dechrau'n Deg.

3.20 Yn hydref 2016 roedd 79 o ysgolion cynradd yn Abertawe yn cael eu hariannu i gynnig lleoedd addysg blyneddodd cynnar rhan amser. Y tair ward lle cafwyd y nifer uchaf o'r ysgolion hynny oedd:

- Ward Treforys (6 ysgol gynradd) ac yn ffinio â hi...
- Ward Llansamlet (5 ysgol gynradd)
- Ward y Cocyd (5 ysgol gynradd)

Y tair ward lle cafwyd y nifer uchaf o lefydd o'r fath (hefyd) oedd:

- Ward Treforys (221)
- Ward y Cocyd (198)
- Ward Llansamlet (190)

Ar draws ardal Abertawe roedd cyfanswm o 382 o leoedd yn hygyrch i blant 3

⁴ Dylid nodi bod AGGCC wedi newid y meini prawf cofrestru yn 2016 i gynnwys plant hyd at 12 oed. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd net yng nghapasiti gwarchodwyr plant.

oed a chyfanswm o 2,509 o leoedd yn hygyrch i blant 4 oed. Roedd 68 o'r ysgolion yn cynnig lleoedd cyfrwng Saesneg ac 11 o'r ysgolion yn cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg.

Roedd 40% o'r lleoedd i blant 3 oed ar gael yn y bore a 60% o'r lleoedd i blant 3 oed ar gael yn y prynhawn. Mewn cyferbyniad, roedd 65% o'r lleoedd i blant 4 oed ar gael yn y bore a 35% o'r lleoedd i blant 4 oed ar gael yn y prynhawn.

- 3.21 Ddiwedd 2016, roedd 18 o leoliadau gofal plant yn darparu lleoedd Dechrau'n Deg ar draws ardal Abertawe. Roedd pob un o'r 18 darparwr yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg sesiynol. Yn ystod tymor hydref 2016 roedd capasiti uchaf (ar draws Abertawe) o 636 o leoedd, fesul diwrnod. Roedd 83% o'r rhieni oedd ag o leiaf un plentyn 2 flwydd oed oedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn cyrchu lle gofal plant o'r fath am ddim.

Y Cyflenwad o Ofal Plant – Adborth Darparwyr Gofal Plant a Rhanddeiliaid

- 3.22 Mae'r adran sy'n dilyn yn amlinellu adborth allweddol a gafwyd gan ddarparwyr gofal plant ffurfiol ac anffurfiol ardal Abertawe yn ystod y cyfnod Awst 2016 – Tachwedd 2016. Mae'n ymgorffori adborth pedwar arolwg a gynhaliwyd ochr yn ochr:

1. Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017
2. Cyfraniad darparwyr gofal plant Abertawe i adroddiad/ymarferiad casglu data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) haf 2016
3. Arolwg gweithlu gofal plant Cymru gyfan Cwllwm yn hydref 2016
4. Arolwg Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 gydag Ysgolion Cynradd ynghylch gofal plant ar y safle y tu allan i oriau ysgol

3.23 O ran y *brif* iaith y darperir gwasanaeth gofal plant ynddi – cafwyd yr adborth canlynol gan ymatebwyr i Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017⁵:

Yr iaith/ieithoedd y cyflwynwyd y ddarpariaeth ynddi/ynddynt	Darparwyr Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar: Gofal Dydd Llawn a Gofal Dydd Sesiynol - % a nododd	Darparwyr Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol - % a nododd	Gwarchodwyr Plant Cofrestredig - % a nododd
Cyfrwng Cymraeg	4%	12.5%	0%
Cyfrwng Cymraeg a Saesneg	6%	12.5%	6%
Cyfrwng Saesneg, gyda pheth defnydd o ddwyieithrwydd	77%	50%	52%
Cyfrwng Saesneg	10%	25%	41%
Unrhyw ieithoedd eraill ⁶	0	0	1%

3.24 Dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 y canlynol:

Yn y sector gofal dydd llawn yr amser agor mwyaf cyffredin *yn ystod yr wythnos* – yn achos math creiddiol o ddarpariaeth (yn ystod y tymor) – oedd 7.30am a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 6.00pm. Yn y sector gofal dydd sesiynol yr amser agor mwyaf cyffredin *yn ystod yr wythnos* – yn achos math creiddiol o ddarpariaeth (yn ystod y tymor) – oedd 9.00am a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd (sesiwn bore, am) 11.30am.

Yn y sector gofal dydd y tu allan i oriau ysgol yr amser agor mwyaf cyffredin *yn ystod yr wythnos* – yn achos math creiddiol o ddarpariaeth (yn ystod y tymor) – oedd 3.20pm a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 5.15pm. Yn sector gwarchod plant Abertawe yr amser cychwyn mwyaf cyffredin *yn ystod yr wythnos* – yn achos darpariaeth graidd (yn ystod y tymor) – oedd 7.00am a'r amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 6.00pm.

3.25 Un o ganlyniadau Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 oedd mai'r gyfradd yr awr a nodwyd amlaf gan ddarparwyr gofal dydd llawn oedd £3.50/yr awr. Fodd bynnag, y gyfradd gyfartalog yr awr a nodwyd gan ddarparwyr gofal dydd llawn oedd £4.53/yr awr.

⁵ Ymatebodd 95% o'r darparwyr gofal dydd llawn oedd yn gweithredu yn hydref 2016 i'r arolwg hwn; ymatebodd 96% o'r darparwyr gofal dydd sesiynol oedd yn gweithredu yn hydref 2016 i'r arolwg hwn; ymatebodd 78% o'r gwarchodwyr plant cofrestredig oedd yn gweithredu yn hydref 2016 i'r arolwg hwn; ymatebodd 100% o'r darparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol oedd yn gweithredu yn hydref 2016 i'r arolwg hwn.

⁶ Nodwyd 'Almaeneg'.

Y gyfradd yr awr a nodwyd amlaf gan ddarparwyr gofal dydd sesiynol oedd £0 – yn sgîl nifer yr achosion o leoedd sesiynol a ariannwyd trwy Dechrau'n Deg.

Y gyfradd yr awr a nodwyd amlaf gan ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol yn ystod y tymor oedd £2.50/yr awr – a'r gyfradd gyfartalog yr awr a nodwyd gan ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol yn ystod y tymor hefyd oedd £2.50/yr awr.

Y gyfradd yr awr a nodwyd amlaf gan ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol yn ystod y gwyliau oedd £3.00/yr awr – a'r gyfradd gyfartalog yr awr a nodwyd gan ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol yn ystod y gwyliau oedd £1.63/yr awr.

Y gyfradd yr awr a nodwyd amlaf gan warchodwyr plant cofrestredig oedd £4.00/yr awr – a'r gyfradd gyfartalog yr awr a nodwyd gan warchodwyr plant cofrestredig oedd £3.84/yr awr.

- 3.26 Dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 fod 27% o'r darparwyr gofal dydd llawn wedi bod â rhestr aros ar ryw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ar gyfer eu darpariaeth yn ystod y tymor. I bob golwg roedd y rhestrau aros – ar gyfartaledd – wedi bod ar eu lefel uchaf yn ystod tymor y gwanwyn 2016.

Dyweddodd 40% o'r darparwyr gofal dydd sesiynol fod eu lleoliad wedi bod â rhestr aros ar ryw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ar gyfer eu darpariaeth yn ystod y tymor. I bob golwg roedd y rhestrau aros – ar gyfartaledd – wedi bod ar eu lefel uchaf yn ystod tymor y gwanwyn 2016.

(Dim ond) 8% o'r gwarchodwyr plant cofrestredig ddywedodd fod gan eu lleoliad restr aros ar ryw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ar gyfer eu darpariaeth yn ystod y tymor. I bob golwg roedd rhestrau aros (unrhyw rai a fu ganddynt) – ar gyfartaledd – wedi bod ar eu lefel 'uchaf' yn ystod tymor yr hydref 2016.

Dyweddodd 21% o'r darparwyr y tu allan i oriau ysgol fod gan eu lleoliad restr aros ar ryw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ar gyfer eu darpariaeth yn ystod y tymor. I bob golwg roedd y rhestrau aros – ar gyfartaledd – wedi bod ar eu lefel uchaf yn ystod tymor y gwanwyn. Ar ben hynny, ni ddywedodd yr un o'r darparwyr y tu allan i oriau ysgol (nac unrhyw fath o ddarparwr gofal plant, mewn gwirionedd) fod gan eu lleoliad restr aros ar ryw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ar gyfer eu darpariaeth yn ystod y gwyliau.

- 3.27 Bu Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 yn helpu i bennu'r pellter mae plant yn ei deithio er mwyn mynychu darpariaeth gofal plant benodol yn ystod y tymor. Dangosodd yr adborth fod plant oedd yn cyrchu gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn ystod y tymor a'r gwyliau (mewn lleoliad) yn tueddu i deithio'n bellach o A i B (rhwng 3 milltir a 10 milltir), a hynny'n drawiadol amlach na phlant oedd yn cyrchu math o ofal plant ar gyfer plant 0-4 oed.

- 3.28 O ran plant ag anghenion ychwanegol a/neu anabledau, dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 fod sector gofal dydd llawn Abertawe yn darparu gofal plant amlaf i'r rhai ag anhawster iaith a lleferydd neu gyfathrebu, gydag anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, dyspracsia) yn dilyn.

O ran plant ag anghenion ychwanegol a/neu anableddau, dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Aseiad 2017 fod sector gofal dydd sesiynol Abertawe yn darparu gofal plant amlaf i'r rhai (unwaith eto) ag anhawster iaith a lleferydd neu gyfathrebu, gydag anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, dyspracsia) yn dilyn.

O ran plant ag anghenion ychwanegol a/neu anableddau, dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Aseiad 2017 fod gwarchodwyr plant cofrestredig Abertawe yn darparu gofal plant amlaf i'r rhai ag anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia, ADHD, dyspracsia), gyda nam ar y golwg yn dilyn.

3.29 Dangosodd Arolwg Darparwyr Gofal Plant Aseiad 2017 mai tri o'r mathau o gefnogaeth benodol/wedi'i thargedu y gofynnwyd amdanynt amlaf gan aelodau (a ymatebodd) o sector gofal plant ffurfiol Abertawe oedd – yn nhrefn amlder:

- Cyngor/cefnogaeth ar gyfer anghenion plant ag anghenion arbennig ac anableddau (20% o'r holl ddarparwyr gofal plant)
- Hyfforddiant (staff) (20% o'r holl ddarparwyr gofal plant)
- Cymorth a chyngor ynghylch arolygu a chofrestru (11% o'r holl ddarparwyr gofal plant)

3.30 Roedd yn galonogol bod Arolwg Darparwyr Gofal Plant Aseiad 2017 yn dangos mai'r cyfnod o amser a nodwyd amlaf gan ddarparwyr gofal plant ffurfiol a gwarchodwyr plant oedd yn gweithredu ar draws ardal leol Abertawe o ran disgwyl parhau i weithredu oedd dros 5 mlynedd.

Cyfnod o amser	Sector Gofal Plant		
	Blynyddoedd Cynnar: Gofal Dydd Llawn a Gofal Dydd Sesiynol	Gwarchodwyr Plant Cofrestredig	Darparwyr Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol
Llai na 2 flynedd	0	13%	4%
Hyd at 3 blynedd	0	7%	0
Hyd at 4 blynedd	0	1%	0
Hyd at 5 mlynedd	2%	13%	4%
Dros 5 mlynedd	80%	54%	63%
Methu dweud	18%	12%	29%

Fodd bynnag, sylwyd bod 1:5 o'r gwarchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd yn yr ardal yn disgwyl bod yn gweithredu am lai na 3 blynedd o hydref 2016.

- 3.31 Yn ystod Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 cafwyd adborth ynghylch faint yn uwch neu'n is roedden nhw'n disgwyl i'r galw am eu lleoedd gofal plant fod *ymhen dwy flynedd* – h.y. yn hydref 2018.

Lefel y galw	Sector Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar: Gofal Dydd Llawn a Gofal Dydd Sesiynol	Gwarchodwyr Plant Cofrestredig	Darparwyr Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol
Sylweddol uwch	8.5%	1%	8%
Uwch – ond nid yn sylweddol	30%	20%	46%
Tua'r un fath	46%	49%	38%
Is – ond nid yn sylweddol	5.5%	12%	4%
Sylweddol is	10%	18%	4%

Dengys y Tabl fod sector gofal plant y tu allan i oriau ysgol yr ardal yn arbennig yn disgwyl cynnydd yn y galw am eu darpariaeth yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

- 3.32 Dengys y tabl isod i ba raddau roedd darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant cofrestredig (trwy Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017) yn barnu bod digon o wahanol fathau o leoedd gofal plant (a nodwyd yn y golofn gyntaf) – o'u persbectif hwy yn eu *hardal ddaearyddol uniongyrchol*.

Grwpiau oed lleoedd gofal plant	Sector Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar: Gofal Dydd Llawn a Gofal Dydd Sesiynol	Gwarchodwyr Plant Cofrestredig	Darparwyr Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol
Oes, mae digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	71%	81%	54%
Na, does dim digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	13%	17%	25%
Dwy ddim yn gwybod a oes digon o leoedd ar gyfer plant 0-2 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	16%	2%	21%
Oes mae digon o leoedd ar gyfer plant 3 a 4 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	80%	83%	63%
Na, does dim digon o leoedd ar gyfer plant 3 a 4 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	12%	13%	25%
Dwy ddim yn gwybod a oes digon o leoedd ar gyfer plant 3 a 4 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	8%	4%	13%

Grwpiau oed lleoedd gofal plant	Sector Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar: Gofal Dydd Llawn a Gofal Dydd Sesiynol	Gwarchodwyr Plant Cofrestredig	Darparwyr Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol
Oes, mae digon o leoedd ar gyfer plant 5-14 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	63%	70%	67%
Na, does dim digon o leoedd ar gyfer plant 5-14 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	20%	23%	21%
Dwy ddim yn gwybod a oes digon o leoedd ar gyfer plant 5-14 oed yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	17%	7%	13%
Oes, mae digon o leoedd ar gyfer plant ag AAA yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	30%	27%	17%
Na, does dim digon o leoedd ar gyfer plant ag AAA yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	30%	18%	38%
Dwy ddim yn gwybod a oes digon o leoedd ar gyfer plant ag AAA yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	40%	54%	46%
Oes, mae digon o leoedd ar gyfer plant ag anghenion meddygol cymhleth yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	30%	28%	17%
Na, does dim digon o leoedd ar gyfer plant ag anghenion meddygol cymhleth yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	30%	18%	38%
Dwy ddim yn gwybod a oes digon o leoedd ar gyfer plant ag anghenion meddygol cymhleth yn ein hardal ddaearyddol uniongyrchol	40%	54%	46%

Mae'r tabl yn dangos bod tua thri chwarter o'r darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar o'r farn *bod* digon o leoedd gofal plant yn eu hardal ddaearyddol uniongyrchol ar gyfer plant 0-2 oed a phlant 3-4 oed. Roedd cyfran rywfaint yn uwch o'r gwarchodwyr plant cofrestredig o'r un farn. Roedd yn ddiddorol gweld mai *canfyddiad* darparwyr gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn amlach oedd nad oedd darpariaeth ddigonol ar gyfer plant cyn-ysgol.

3.33 Yn hanfodol, gofynnwyd i'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant a ymatebodd:

Yn ddamcaniaethol, petai'r 20 awr yn cael eu hychwanegu at y ddarpariaeth hon, fydddech chi'n ystyried cynnig yr holl oriau hynny, neu rai ohonynt, yn eich lleoliad chi?

Dengys y tabl sy'n dilyn (amlder) yr ymatebion gan y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar (a) gofal dydd llawn a (b) sesiynol i'r cwestiwn yma, wedi'u nodi fesul ward⁷.

Ward	Nifer y darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol a ymatebodd	Byddwn, y cyfan	Byddwn, rhai	Na fyddwn	Ddim yn gwybod
Llandeilo Ferwallt	1	0	1	0	0
Bonymaen	1	0	0	1	0
Y Castell	4	1	0	2	1
Clydach	4	2	0	1	1
Y Cocyd	3	1	1	0	1
Cwmbwrla	1	0	1	0	0
Dyfnant	1	0	0	0	1
Gorseinon	4	2	1	0	1
Tregŵyr	2	1	0	1	0
De Cilâ	2	0	0	1	1
Glandŵr	2	1	0	1	0
Llangyfelach	1	0	1	0	0
Llansamlet	6	2	2	0	2
Treforys	3	1	1	1	0
Mynyddbach	4	1	1	0	2
Ystumllwynarth	2	2	0	0	0
Penclawdd	2	2	0	0	0
Penderi	4	0	1	3	0
Penllergaer	2	1	0	0	1
Pennard	1	0	0	0	1
Penyrheol	2	0	0	0	2
Pontarddulais	2	1	0	1	0
St Thomas	2	0	0	1	1
Sgeti	3	1	0	0	2
Townhill	2	0	0	2	0
Uplands	5	3	1	0	1
West Cross	3	2	0	0	1
Cyfanswm	69 (100%)	24 (35%)	11 (15%)	15 (22%)	19 (28%)

Dengys y tabl fod ychydig dros draean o'r darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol a ymatebodd i Arolwg Darparwyr Asesiad 2017 wedi datgan bwriad pendant i ystyried darparu lleoedd oedd yn cyfrif am yr holl oriau

⁷ Mae ymatebion y gwarchodwyr plant i'w gweld yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Llawn Abertawe 2017. Lle nad yw ward wedi'i chynnwys mae hynny'n dangos bod darpariaeth 0 o'r fath yn yr ardal leol honno.

ychwanegol y gellid eu hawlio am ddim.

Gwahoddwyd yr holl ddarparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol hefyd i roi adborth ar y prif faterion y byddai angen i'w lleoliad ystyried petaent, yn ddamcaniaethol, yn darparu'r cyfan o'r 20 awr ychwanegol, neu rai ohonynt. Y ddau fater y soniodd y darparwyr gofal plant hyn amlaf amdanynt yn eu hadborth oedd (a) faint o arian ychwanegol fyddai ar gael (44% o'r cyfryw ymatebwyr), ac yn ail o ran amllder roedd (b) y byddai anawsterau capasiti (27% o'r cyfryw ymatebwyr).

3.34 Ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017, cynhaliodd Dinas a Sir Abertawe gyfweiliadau ffôn strwythuredig gyda'r aelodau canlynol o deulu gofal plant anffurfiol/anghofrestredig yr ardal leol:

1. Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy h.y. gofalwyr plant yn y cartref a nanis⁸
2. Cynlluniau chwarae sy'n cwrdd mewn Canolfannau Hamdden yn ardal Abertawe

Roedd yr adborth allweddol gan ddarparwyr gofal plant anffurfiol/anghofrestredig yn Abertawe yn cynnwys y canlynol:

- Roedd 64% o'r cyfryw ddarparwyr yn cynnig darpariaeth yn ystod y tymor ac roedd 90% yn cynnig darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol
- Y cyfrwng iaith mwyaf cyffredin oedd Saesneg (64%), gyda Saesneg yn cynnwys rhai elfennau Cymraeg yn dilyn (28%)
- Yn achos y Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy (yn y cartref), y ffi gyfartalog yr awr oedd £7.16. Yn achos y chwe cynllun chwarae mewn Canolfannau Hamdden (yn ystod y gwyliau) y ffi gyfartalog yr awr oedd £1.84
- Roedd 35% o'r darparwyr yn credu y byddai'r galw am eu darpariaeth yn: uwch – er nad yn sylweddol felly yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Nid oedd neb o'r darparwyr yn teimlo y byddai'r galw yn: sylweddol is
- Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant anffurfiol: pa mor hir roedden nhw'n disgwyl parhau i ddarparu gofal plant. Roedd y mwyafrif (58%) yn datgan eu bod yn disgwyl darparu gofal plant am gyfnod hwy na 5 mlynedd. (Dim ond) 8% o'r darparwyr perthnasol oedd yn credu eu bod yn disgwyl darparu gofal plant am gyfnod *heb fod yn hwy na* 3 blynedd

3.35 Yn hydref 2016, cynhaliodd Cwlwm⁹ arolwg Cymru gyfan o'r gweithlu gofal plant. Nod yr arolwg oedd (a) datblygu darlun cywir, seiliedig ar dystiolaeth, o'r tirlun gofal plant blynyddoedd cynnar presennol yng Nghymru; (b) darparu gwybodaeth ynghylch lefelau'r cymwysterau sydd gan y rhai sydd yn y sector ar

⁸ Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn: <http://cssiw.org.uk/providingacareservice/nannies/?lang=en>

⁹ Mae 'Cwlwm' yn dod â'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru. Partneriaid 'Cwlwm' yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru), PACEY Cymru a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (Wales PPA).

hyn o bryd; (c) nodi anghenion hyfforddi ac archwilio materion cysylltiedig â mynediad at hyfforddiant. Roedd yr adborth allweddol gan ddarparwyr gofal plant yn Abertawe yn cynnwys y canlynol:

- Grŵp oed mwyaf cyffredin aelod o'r gweithlu gofal plant oedd (menyw) 31-40 oed – bron chwarter o'r gweithlu cyfan
- Nid oedd gan 16% o'r gweithlu gymhwyster ym maes gofal plant na gwaith chwarae (3% yn is na ffigur Cymru gyfan)
- Roedd gan 50% o'r gweithlu gymhwyster Gofal Plant Lefel 3 (2% yn uwch na ffigur Cymru gyfan)
- Roedd 6% o'r gweithlu wedi graddio gyda chymhwyster ym maes gofal plant (eto, 2% yn uwch na ffigur Cymru gyfan)
- Dywedodd 73% o'r ymatebwyr nad oes gan eu darpariaeth gyllideb hyfforddi
- Ni ddywedodd 0 o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gael hyfforddiant yn Gymraeg yn unig – ond dywedodd 12% y bydden nhw'n croesawu sesiynau hyfforddi/cyrsiau dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg
- Y tri phwnc a nodwyd amlaf fel rhai y byddai'r ymatebwyr yn croesawu (mwy o) hyfforddiant i ymdrin â hwy oedd: 1. amddiffyn a diogelu plant (28%); 2. cymorth cyntaf (25%); hylendid bwyd (22%)
- Ymddangosai mai (dim ond) 2% o'r gweithlu gofal plant oedd yn wrywod

3.36 Mae 62 ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ar draws ardal Abertawe wedi darparu'r adborth canlynol ynghylch nifer yr enghreifftiau o ofal plant heb ei gofrestru y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys clybiau brechwast (yn gweithredu ar eu safleoedd):

- Dywedodd 92% o gynrychiolwyr (y 62 o) ysgolion yn Abertawe (oedd wedi ymateb) fod ganddynt ar hyn o bryd o leiaf un math o ofal plant yn gweithredu ar eu safle – yn fwyaf aml clwb brechwast wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
- O ran y cwestiwn: *Ydych chi'n credu bod y ddarpariaeth gofal plant bresennol yn Abertawe yn briodol ar gyfer diwallu anghenion gofal plant rhieni sy'n mynychu eich ysgol chi?* – gwelwyd y canlyniad sy'n dilyn...

(Nodwyd) Ydw = 42%

Nac ydw = 29%

Ddim yn gwybod = 29%

- Dywedodd 27% o gynrychiolwyr ysgolion cynradd fod lle ymarferol yn eu hysgol y gellid ei ddefnyddio o bosib ar gyfer darpariaeth gofal plant newydd.

4. Bylchau sy'n Dod i'r Amlwg – Dadansoddiad

4.1 Bylchau Daearyddol a Math

Mae bylchau daearyddol yn canolbwyntio ar leoliadau sydd (o bosib) yn profi bylchau penodol yn y ddarpariaeth – efallai yng nghyswllt dewisiadau rhieni.

Mae bylchau math yn dangos ble mae diffyg o ran y math o ofal plant y gallai rhieni a gofaluwr fod yn mynegi eu bod am ei ddewis, neu lle gallai hynny ddigwydd yn y dyfodol.

O ystyried y gorgyffwrdd posibl rhwng y ddau gategori yma o fylchau, maent wedi derbyn sylw ar y cyd yn yr adran hon.

- 4.1.1 Mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio digonolrwydd gofal plant yn Ninas a Sir Abertawe gynnal ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd dwy ward sy'n ffinio â'i gilydd yn nwyrain yr ardal yn cyfrif am nifer cymharol uchel o ddatblygiadau tai newydd yn ystod y cyfnod sy'n dod – h.y. (a) ward Bonymaen a (b) ward Llansamlet – ward sydd eisoes â phoblogaeth gymharol uchel o blant a phobl ifanc.
- 4.1.2 Roedd Arolwg Darparwyr Asesiad 2017 yn awgrymu nad oedd 1:5 o warchodwyr plant cofrestredig ardal Abertawe (tua 20 o warchodwyr plant) yn disgwyl bod yn dal i weithredu erbyn hydref 2019. Dwy ward lle gwelwyd sawl achos o ailadrodd yr ymateb hwn oedd (a) Llansamlet a (b) Treforys – dwy ward lle mae'r poblogaethau'n gymharol uchel, ac yn achos y gyntaf, lle mae nifer cymharol uchel o ddatblygiadau tai newydd i ddigwydd yn ystod y cyfnod sydd i ddod, a *allai* yn ei dro effeithio ar y galw am ofal plant ffurfiol (h.y. ei gynyddu), gan gynnwys lleoedd gyda gwarchodwyr plant.
- 4.1.3 Mae Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Abertawe 2017 wedi dangos nad oes darpariaeth gofal plant wedi'i lleoli'n llythrennol oddi mewn i ward Mawr, yng ngogledd yr ardal. Fodd bynnag: (a) mae'n ymarferol o ran logisteg y gallai teuluoedd sy'n byw yn y ward (gymharol wledig) hon gymudo/deithio i wardiau cymdogol – y mae gan rai ohonynt nifer cymharol uchel o leoedd gofal plant, megis ward Treforys; (b) nid oedd tystiolaeth gyson fod rhieni oedd yn byw yn y ward yn credu bod y ffactor hwn yn rhwystr pwysig iddynt gyrchu gofal plant ffurfiol; (c) mae Ysgol Gynradd Craigcefnparc ac Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre wedi'u lleoli yn y ward ac mae'r ddwy ohonynt yn cynnig lleoedd addysg blynnyddoedd cynnar rhan amser wedi'u hariannu.
- 4.1.4 Mae amcangyfrifon poblogaeth wardiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) 2015 yn dangos bod nifer cymharol uchel o blant 3 a 4 oed, h.y. 341, yn byw yn ward Townhill. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r cwestiwn:

Yn ddamcaniaethol, petai'r oriau y gellir eu hawlio am ddim yn cael eu hestyn i ymgorffori 20 awr o ofal plant am ddim, fydddech chi'n ystyried cynnig yr holl oriau hynny, neu rai ohonynt, yn eich lleoliad?

Nid atebodd yr un o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau yn y ward 'byddwn – y cyfan' na 'byddwn – rhai'.

Yn yr un modd, mae gan ward Penderi hefyd nifer cymharol uchel o blant 3 a 4 oed yn byw yno, h.y. 432. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r un cwestiwn, dim ond un o'r pedwar darparwr gofal plant mewn lleoliadau yn y ward atebodd 'byddwn [- rhai'].

Gellir nodi hefyd fod 1:5 o'r darparwyr gofal dydd llawn wedi dweud bod angen yn ddelfrydol iddynt dderbyn rhagor o wybodaeth am ddeinameg yr estyniad i'r hyn y gellir ei hawlio'n ddi-dâl a sut byddai'r cynnydd hwnnw'n digwydd.

- 4.1.5 Dywedodd 42% o'r darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol mai mater allweddol iddyn nhw o ran ymwneud â chyflenwi'r hawl i gael mwy o oriau am ddim fyddai eglurder yn y pen draw ynghylch yr arian oedd ar gael iddynt i helpu i ddarparu lleoedd o'r fath. Amlygwyd y pryder hwn droeon gan y cyfryw ddarparwyr yn ward Llansamlet a ward gyfagos Mynyddbach.
- 4.1.6 Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio digonolrwydd gofal plant yn Ninas a Sir Abertawe barhau'n ymwybodol bod nifer cymharol uchel o ddarparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal dydd sesiynol yn ward Townhill – yn ôl Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 – yn credu y byddai'r galw am eu lleoedd yn “cynyddu” rhwng hydref 2016 a hydref 2018. Gellid barnu bod cysylltiad rhwng y canfyddiad hwn a'r ffaith bod y ward yn cyfrif am nifer cymharol uchel o'r preswylwyr sy'n blant 0-4 oed. Hefyd, yng nghyswllt ward Townhill, nid oedd 80% o'r holl ddarparwyr gofal plant oedd yn gweithredu o fewn ei ffiniau yn credu – *yn eu barn a'u profiad hwy* – fod digon o leoedd y tu allan i oriau ysgol ar gyfer y (nifer cymharol uchel o) blant 5-15 oed oedd yn byw yn y ward, yn hydref 2016.
- 4.1.7 Fel y nodwyd yn 4.1.4 (uchod) mae gan ward Penderi nifer cymharol uchel o blant 0-4 oed yn byw yno. Yn sgîl y ffaith hon, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio digonolrwydd gofal plant yn Ninas a Sir Abertawe barhau'n ymwybodol bod (a) dros hanner y (naw) darparwr gofal plant ar gyfer y grŵp oedran hwnnw yn y ward wedi datgan (fel rhan o Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017) nad oedd digon o leoedd gofal plant, *yn eu barn nhw*, ar gyfer y grŵp oedran yma ar hyn o bryd.
- 4.1.8 O ran ardal Abertawe yn ei chrynswth, dangosodd arolwg gweithlu Cwlwm yn hydref 2016 nad oedd gan 16% o'r gweithlu gofal plant gymhwyster ym maes gofal plant neu waith chwarae.

4.2 Bylchau incwm

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar feysydd lle mae diffyg posibl o ran gofal plant fforddiadwy, neu lle gallai hynny ddigwydd yn y blynyddoedd sy'n dod.

4.2.1 Roedd rhieni oedd yn byw yng ngogledd yr ardal, ac a oedd yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol yn tueddu i 'gytuno' â'r gosodiad: *mae gofal plant (cofrestredig) yn rhy ddrud yn amlach na rhieni oedd yn byw yn ne'r ardal a oedd hefyd yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol.*

4.2.2 Roedd rhieni oedd yn byw yng ngogledd yr ardal ac *nad oeddent* yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol ar hyn o bryd (h.y. rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr) hefyd yn tueddu i 'gytuno' â'r gosodiad: *mae gofal plant (cofrestredig) yn rhy ddrud yn amlach na rhieni oedd yn byw yn ne'r ardal ac nad oeddent yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol. Er enghraifft wrth ateb y cwestiwn: Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n disgrifio orau pam nad ydych chi'n defnyddio gofal plant ar gyfer rhai o'ch plant neu bawb ohonynt ar hyn o bryd?*

Dywedodd 25% yn fwy o'r rhieni oedd yn byw yn ardaloedd côd post SA5 (ardal leol Canol Abertawe - gogledd) ac SA6 (ardal leol Gogledd Abertawe) fod gofal plant yn rhy ddrud, o gymharu ag ardaloedd côd post SA2 (ardal leol Canol Abertawe - de) ac SA3 (ardal leol De-orllewin Abertawe).

4.2.3 Cafwyd nifer cymharol isel o rieni'n adrodd eu bod yn cyrchu cymorth ariannol trwy elfen gofal plant treth gwaithio a/neu trwy hawlio gofal plant neu gymorth di-dreth trwy'r cynllun â chymorth Cyflogwr. Roedd hyn yn digwydd yn (fwyaf) aml oherwydd anghymhwysedd – fodd bynnag, dywedodd tua 10% o 'ddefnyddwyr' gofal plant ffurfiol eu bod yn ansicr a oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol o'r fath.

4.3 Bylchau anghenion penodol

Cynhelir dadansoddiad o'r bwch anghenion penodol i benderfynu a oes diffyg lleoedd addas ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac anabledau neu blant ag anghenion neu ofynion eraill penodol – gan gynnwys rhai o grefyddau neu grwpiau cymunedol arbennig.

4.3.1 *Nid oedd* traean o'r holl ddarparwyr gofal plant yn teimlo bod digon o leoedd gofal plant *yn eu hardal ddaearyddol uniongyrchol* ar gyfer plant ag anghenion arbennig a phlant ag anghenion meddygol cymhleth – gosodiad oedd yn tueddu i gael ei ailadrodd yn arbennig gan ddarparwyr gofal plant oedd wedi'u lleoli yn ardaloedd côd post SA1 (ardal leol De-ddwyrain Abertawe) ac SA2 (ardal leol Canol Abertawe - de).

4.3.2 Ymatebodd 48% o'r holl rieni trwy Arolwg Rhieni Asesiad 2017 mai eu huchelgais oedd bod eu plentyn/plant yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Er bod rhai achosion o rieni'n datgan nad oeddent yn cyrchu gofal plant ffurfiol oherwydd absenoldeb darpariaeth Gymraeg neu fethiant i gael hyd i

ddarpariaeth o'r fath, nid oedd problem o'r fath yn digwydd ar raddfa eang, yn ôl pob golwg. Mae hwn yn fater y bydd cynllunwyr digonolrwydd gofal plant am ei fonitro o bosib – yn arbennig yn sgîl dyfodiad yr hawl i dderbyn mwy o oriau am ddim.

4.3.3 Dywedodd 20% (1:5) o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd i Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 mai mater lle bydden nhw'n croesawu rhagor o gyngor a chefnogaeth yw cefnogi plant sydd ag anghenion arbennig ac anabledau. Yn wir, cafwyd y gosodiad/cais hwn gan bron 40% o'r darparwyr gofal dydd llawn.

4.4 Bylchau amser

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar a oes prinder gofal plant ar adeg pan fyddai rhieni am ei ddefnyddio, neu a allai hynny ddigwydd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

4.4.1 Dywedodd 30% o'r holl ymatebwyr i Arolwg Darparwyr Gofal Plant Asesiad 2017 mai tuedd benodol yr oeddent wedi sylwi arni ers 2014 oedd galw cynyddol am *ofal plant*/oriau rhan amser.

4.4.2 Dangosodd Arolwg Darparwyr Asesiad 2017 fod tuedd i'r rhestrau aros yn sector gofal plant 0-4 oed Abertawe fod ar eu lefel uchaf adeg (mynediad) tymor y gwanwyn.

4.5 Bylchau oedran

Mae'r adran hon yn ystyried a oes prinder gofal plant addas i ddiwallu anghenion a gofynion grŵp oed penodol.

4.5.1 Dangosodd Arolwg Rhieni Asesiad 2017, o blith y rhieni/gofalwyr oedd yn cyrchu o leiaf un math o ofal plant ffurfiol – bod 45% yn cyrchu math o ofal plant y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys darpariaeth yn ystod y gwyliau. Felly, dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio digonolrwydd gofal plant yn Ninas a Sir Abertawe barhau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld cynnydd yn y boblogaeth blant 8-15 oed yn ystod y cyfnod 2017 – 2020.

4.5.2 Er mwyn cadw i fyny â'r cynnydd o 1.65% a *amcangyfrifir* yn nifer y plant 8-15 oed a fydd yn byw yn ardal Abertawe erbyn 2020, byddai angen cynnydd cyfatebol o (ryw 40 o) leoedd gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn ddelfrydol, *dim ond er mwyn cynnal y sefyllfa bresennol*.

4.5.3 Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio digonolrwydd gofal plant yn Ninas a Sir Abertawe barhau'n ymwybodol y rhagwelir y bydd y boblogaeth o blant 2 flwydd oed sy'n byw yno yn cynyddu (er nad mor gyflym â'r hyn a ddisgwylir yn achos y plant hŷn).